24. Mae cyfres o Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys a Darbodus yn cael eu cynhyrchu gan awdurdodau cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi cyfalaf yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae'r Dangosyddion hyn yn cael eu gosod o fewn Datganiad Strategaeth y Trysorlys. Cânt eu monitro hefyd ar amllder priodol (yn chwarterol yn aml) a'u hadrodd i'r lefel wleidyddol briodol, Gweithredol / Cabinet neu Gyngor. Caiff y ffin weithredol ei hun ei monitro'n ddyddiol unwaith y mae trafodion y farchnad ariannol wedi digwydd fel rhan o weithgareddau arferol rheoli'r trysorlys gan awdurdodau lleol.
25. Caiff unrhyw fenthycia heb gymorth ei gymeradwyo fel rhan o'r trafodaethau ar y Rhaglen Gyfalaf gyfan. Mae'n ffordd arall o ariannu ynghyd â benthycia â chymorth, grantiau a chyfraniadau a derbynebaw cyfalaf.
26. Bydd gan reolaeth rhaglen gyfalaf gyfres o brosesau cymeradwyo a byddant yn ffurfio rhan allweddol o'r broses o osod cyllideb; bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau swyddogion ac aelodau. Bydd gan y Weithrediaeth / Cabinet rôl arwyddocaol ond bydd yr ystyriaethau ehangach hefyd yn cael eu llywio gan brosesau'r gyllideb lawn a fydd yn ymgysylltu'r aelodau i gyd wrth graffu ar y gyllideb a chytuno arni. Mae rheoli gwariant cyfalaf yn mynd yn gynyddol soffistigedig mewn awdurdodau yng Nghymru a cheir dealltwriaeth bod angen i benderfyniadau buddsoddi cyfalaf gyfrannu at gyflawni amcanion strategol yr awdurdod. Bydd awdurdodau'n ceisio cysylltu eu cynllun rheoli asedau, eu strategaeth cyfalaf a strategaeth rheoli'r trysorlys a ddylai fod i gyd yn seiliedig ar yr un tybiaethau cyson yn ymwneud â gwariant cyfalaf a phroffiliau ariannu.

27. Mae ystod o agweddau'n cael eu datblygu ar draws Cymru yn ymwneud â'r ffordd y caiff benthycia heb gymorth ei ddefnyddio a'r ffordd y caiff ei ddefnydd ei gymeradwyo. Y brif ystyriaeth yn hyn i gyd yw bod y benthycia'n fforddiadwy a bod y costau refeniw naill ai:


- yn cael eu bodloni o adnoddau presennol am ei fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod; neu
- yn cael eu bodloni o fuddion buddsoddiad cyfalaf.

28. Er mwyn rheoli'r arbedion a sicrhau bod ffocws 'corfforaethol' yn cael ei gynnal, mae nifer o awdurdodau'n nodi arbedion refeniw prosiect penodol ac yna mae'r rhain yn cael eu "trosglwyddo" o'r portffolio gwariant i gyllideb rheoli dyledion ganolog ar gyfer cyfnod y benthycia darbodus a chânt eu rheoli'n ganolog.

29. Yn hanfodol, ym mhob awdurdod, mae'r goblygiadau refeniw yn cael eu hystyried pan fydd prosiect yn cael ei gynnig a'r cyllid refeniw yn cael ei nodi. Mae'r cyllid hefyd yn cael ei ystyried yn rhan o'r cynllun ariannol tymor canolog. Mae rhai awdurdodau wedi gwneud penderfyniad polisi na fyddant yn cynyddu'r Dreth Gyngor i ariannu benthycia heb gymorth.

### **Beth yw lefel y ddyled sydd yn weddill ar 31 Mawrth 2011 a'r goblygiadau o ran ad-daliadau blynyddol sy'n ddyledus yn y dyfodol?**

30. Ar 31 Mawrth 2011 **cyfanswm y benthycia gros** oedd yn weddill (**o fenthycia heb gymorth a benthycia â chymorth**) oedd £3.76 biliwn. Mae hyn wedi gostwng o lefel uchel o £4 biliwn yn 2007-2008. Mae'r lefel sy'n gostwng o fenthycia gros a welir yn ffigur 6 yn wrthygyferbyniad i lefelau cynyddol benthycia heb gymorth a nodir yn ffigur 1. Mae'n cynrychioli penderfyniad bwriadol ar ran yr awdurdodau i leihau lefelau eu benthycia allanol fel ystyriaeth gwerth am arian (i leihau taliadau llog) a chanlyniad strategaethau rheoli'r trysorlys i gynyddu'r defnydd o adnoddau mewnol fel benthycia mewnol. Yn ogystal, mae dyledion hanesyddol, a ddygwyd ymlaen o awdurdodau blaenorol, yn disgyn allan.

Ffigur 6<sup>6</sup>

31. Yn 2010-2011 cyllidodd awdurdodau lleol £340 miliwn ar gyfer rheoli dyledion (â chymorth a heb gymorth), mae hyn yn cynrychioli 4.7% o wariant refeniw net yr awdurdod. Rhagwelwyd y byddai'r lefel yn aros yr un peth yn 2011-12.

**Beth yw cost gwasanaethu benthycy darbodus ar gyfartaledd, o ran y cyfanswm a fenthycwyd o'i gymharu â'r cyfanswm a ad-dalwyd dros oes y benthycy?**

32. Gan fod awdurdodau Cymru'n gweithredu strategaethau rheoli trysorlys integredig ac yn bodloni'r safonau a nodir yng Nghôd Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, nid yw'n bosibl gwahanu a nodi'r gost ar gyfer benthycy heb gymorth ar gyfartaledd. Ar unrhyw adeg, bydd awdurdod yn edrych ar draws ei ofyniad benthycy ac yn ceisio benthycy yn y ffordd fwyaf cost effeithiol i fodloni eu hanghenion. Yn ogystal, yn dilyn ymarfer cyfrifyddu, nid yw'n bosibl cyfateb benthycy penodol ag ased penodol.

33. Mae awdurdodau Cymru wedi datblygu prosesau cynllunio busnes cadarn a fydd yn nodi gofyniad ariannu a chost benthycy'r arian sydd yn angenrheidiol i weithredu'r newidiadau a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae ystod o fecanweithiau y gall awdurdodau eu defnyddio i asesu achosion busnes fel cyfradd enillion mewnol neu werth presennol net ond mae'r penderfyniadau hyn yn

<sup>6</sup> Ffurflenni rhagolygon cyfalaf; Llywodraeth Cymru

rhai ar wahân i'r cyllido gwirioneddol. Y rheol hanfodol yw bod yn rhaid i ganlyniad yr achos busnes fod yn fwy na chost y cyfle i fenthyca.

### **Rhowch drosolwg byr o natur y prosiectau / dibenion y mae arian o fenthyca darbodus wedi cael eu defnyddio**

34. Ceir tebygrwydd mawr yn y cynlluniau y mae awdurdodau Cymru wedi eu dewis i ddefnyddio benthyca heb gymorth ar eu cyfer a chaiff y rhain eu hamlinellu ymhellach yn yr adran hon. Yn ogystal, roedd nifer o hyrwyddwyr cyffredin ar gyfer defnyddio benthyca heb gymorth:

- Cyfle – trwy gynllunio ariannol cadarn, mae'r awdurdodau wedi gallu manteisio ar eu pwerau benthyca i wneud penderfyniadau sy'n rhoi mwy o effeithlonrwydd yn eu sefydliadau. Gallai enghreifftiau o gyfle olygu prynu adeilad lle mae cost y ddyled yn llai na'r brydles, a rheoli fflyd o gerbydau trwy brynu yn hytrach na llogi.
- Enillion - Gwneir rhai penderfyniadau oherwydd bydd y buddsoddiad yn gwneud enillion i'r awdurdod. Gallai'r enghreifftiau gynnwys buddsoddi mewn adeiladau sy'n defnyddio ynni yn effeithlon, rhyddhau cyllid trwy gydgrynhoi darpariaeth addysg mewn llai o ysgolion gan ddileu lleoedd dros ben neu fuddsoddi mewn canolfannau hamdden lle mae cyfleusterau sy'n cael eu huwchraddio yn creu ffrydiau incwm uwch neu gostau rhedeg is.
- Dewis/ blaenoriaethau'r aelodau - Bydd adegau pan fydd gwleidyddion lleol yn pennu polisi a chaiff y penderfyniad ei gefnogi trwy fuddsoddi mewn benthyca heb gymorth pan allai'r adnodd hwn fod wedi cael ei wario rhywle arall.

35. Dyma'r prif feysydd lle mae benthyca heb gymorth wedi cael ei ddefnyddio:

- **Prynu cerbydau, cyfarpar ac offer** – arbedion gan fod taliadau cyfalaf yn llai na chost y brydles;
- **Cyfleusterau Hamdden** – ariennir gwasanaethau newydd a gwell trwy fenthyca heb gymorth ac mae'r cynnydd yn yr ymwelwyr a'r aelodau yn darparu'r incwm i gefnogi'r benthyca;
- **Addysg a rhesymoli lleoedd dros ben** – trwy gydgrynhoi lleoedd ysgol, gellir cau hen adeiladau drud, o ganlyniad mae llai o adeiladau i'w cefnogi a'u cynnal a'u cadw ac mae hyn yn aml yn lleihau costau ynni ac yn darparu amgylchedd dysgu gwell;

- **Eiddo sy'n defnyddio ynni yn effeithlon** – gall hen swyddfeydd fod yn ddrud i'w cynnal a'u cadw a'u gwresogi. Trwy symud i adeilad newydd, bydd gostyngiadau yng nghostau cynnal a chadw ac ynni yn talu am daliadau cyfalaf ychwanegol;
- **Celloedd Ffotofoltäig (PV)** - mae sawl awdurdod wedi gosod celloedd PV yn adeiladau'r cyngor ac mewn tai cyngor i leihau costau ynni a darparu incwm trwy'r cynllun tariff bwydo i mewn;
- **Stoc goleuo strydoedd gwell** – mae awdurdodau yn gallu buddsoddi trwy gostau rhedeg is stoc newydd
- **Tai** – i'r awdurdodau hynny sydd naill ai wedi dewis cadw eu stoc tai neu heb fod yn llwyddiannus yn eu pleidleisiau trosglwyddo, cyllid benthycia heb gymorth trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a rhent tenantiaid yw'r dull pennaf o gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- **Cynlluniau buddsoddi i arbed** – mae awdurdodau wedi dewis defnyddio benthycia heb gymorth i ariannu cynlluniau mewnol a fydd yn hyrwyddo effeithlonrwydd yn y sefydliad, ee fel rhan o fuddsoddiad TG a phrosesau newid.

## **LGBI – Gwelliannau Seilwaith Priffyrdd**

36. Yn 2011-2012, dyluniodd Llywodraeth Cymru a CLILC gynllun, a chytuno arno, i hyrwyddo buddsoddi ym mhriffyrdd awdurdodau lleol. Roedd yn rhoi adnoddau ychwanegol i awdurdodau i ganiatáu cynnydd mewn benthycia heb gymorth i ariannu gwariant ar seilwaith priffyrdd. Dros gyfnod o dair blynedd, bydd y rhaglen yn darparu tua £170m o gyllid ychwanegol. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath; mae'n dibynnu ar awdurdodau'n darparu achosion busnes cadarn ar gyfer eu cynlluniau buddsoddi a'r rhain yn cael eu hystyried ar lefel ranbarthol trwy'r consortia trafndiaeth. Mae'r cynllun wedi cael ymateb cadarnhaol gan lywodraeth leol fel ffordd o wella seilwaith priffyrdd ar draws Cymru. Yn ogystal, trwy reoli'r gadwyn gyflenwi yn effeithiol, bydd yn ysgogiad i economi Cymru.

## **A oes unrhyw wersi sydd wedi eu dysgu neu bryderon yr hoffech eu hamlygu mewn perthynas â benthycia darbodus?**

37. Ers cyflwyno'r Côt Darbodus, mae awdurdodau wedi datblygu eu defnydd o fenthycia heb gymorth. Anogodd y rhyddid a ddarparwyd trwy gyflwyno'r Côt Darbodus ffordd newydd o feddwl am benderfyniadau buddsoddi cyfalaf a'r ffordd y maent yn cysylltu ag amcanion a chynlluniau strategol ehangach. Roedd hefyd yn gofyn am ddatblygu set newydd o sgiliau er mwyn gwneud y defnydd gorau o bwerau er budd cymunedau lleol. Gwnaed hyn mewn ffordd ddarbodus gan sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wneir heddiw wedi gadael etifeddiaeth na ellir ei fforddio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae dangosyddion fforddiadwyedd y Côt Darbodus yn ddull pwysig o fonitro ar gyfer awdurdodau ond cânt eu sefydlu'n lleol. Mae'r Côt Darbodus yn datgan y dylai awdurdodau ystyried y materion canlynol:

- fforddiadwyedd, ee goblygiadau i'r Dreth Gyngor
- doethineb a chynaliadwyedd, ee goblygiadau ar gyfer benthycia allanol
- gwerth am arian, ee arfarnu opsiynau
- stiwardio asedau, ee cynllunio rheoli asedau
- amcanion gwasanaeth, ee cynllunio strategol ar gyfer yr awdurdod
- ymarferoldeb, ee y gallu i gyflawni'r blaengynllun

38. Mae benthycia heb gymorth wedi bod yn opsiwn gwerthfawr i awdurdodau lleol yn datblygu achosion busnes, arbed arian a galluogi newid. Ond mae'n hanfodol cydymffurfio â 'rheol aur' benthycia heb gymorth h.y. na ddylid benthycia oni bai bod ffrwd refeniw ddigonol, gynaliadwy wedi ei hymrwymo i'w gefnogi. Yn ogystal, mae'n bwysig nad yw costau "sefydlog" fel taliadau cyfalaf yn dod yn gyfran rhy fawr o'r gyllideb refeniw am fod hynny'n gwneud arbedion effeithlonrwydd yn anos i'w cyflawni am fod llai o wariant refeniw arferol i'w arbed.

**39. Mae hon yn ystyriaeth bwysig iawn; er bod y defnydd o fenthycia heb gymorth wedi cynyddu wrth i awdurdodau geisio pontio'r bwlch rhwng yr angen am fuddsoddiad cyfalaf a'r cyllid sydd ar gael, mae 'cynffon' refeniw yn gysylltiedig â benthycia bob amser. Mae angen cydbwysu anghenion buddsoddiad cyfalaf ag unrhyw bosibilrwydd o gyfyngu cyflenwad gwasanaethau prif ffrwd.**

40. Gyda llai o gyllid cyfalaf craidd a llai o allu i godi derbynebaw cyfalaf, mae perygl gwirioneddol y bydd benthycia heb gymorth yn cael ei ystyried fel yr unig ateb i ddiffygion cyfalaf. Nid yw cynyddu costau ariannu yn sylweddol i ganran ffrwd refeniw net neu 'tagu'r gyllideb refeniw â chostau morgais' yn ddull cynaliadwy.
41. Oherwydd y berthynas gymhleth hon rhwng gwariant cyfalaf a refeniw ac angen, ni chynghorir ystyried un heb y llall.

### **Rhowch drosolwg byr o unrhyw dulliau amgen y gallai'r awdurdod fod yn eu hystyried i ariannu buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol**

42. Mae awdurdodau lleol yn ceisio dulliau cyllid amgen yn barhaus er mwyn ysgogi adnoddau y mae eu hangen yn fawr mewn ardaloedd ac economïau lleol. Gellir defnyddio'r buddsoddiad hwn yn uniongyrchol i ariannu asedau neu i weithio mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn caniatáu lefelau buddsoddi uwch. Mae awdurdodau lleol wedi ystyried a byddant yn parhau i ystyried y dulliau a nodir isod.
43. **Cyllido trwy Gynyddrannau Treth (TIF)** – mae'r dull presennol o ddefnyddio TIF, sy'n cael ei archwilio yn Lloegr a'r Alban, yn cynnig bod 70% o'r codiad yn y gyfradd fusnes mewn ardal benodedig yn cael ei gadw'n lleol gyda'r 30% sydd yn weddill yn dychwelyd i'r canol. Os yw Caerdydd, trwy brosiect CBD, yn cyflenwi 200,000 troedfedd sgwâr o ddatblygiad newydd wedi ei feddiannu bob blwyddyn dros oes y Parth Menter, sef 5 mlynedd, gallai hyn fod yn gyfwerth â thua £1m o refeniw a gedwir yn lleol y flwyddyn, cyfanswm o £5m erbyn diwedd oes y Parth Menter. Byddai £5m o refeniw wedi ei gadw dros 25 mlynedd yn caniatáu benthycia tua £50m i'w fuddsoddi mewn gwelliannau sylweddol i seilwaith.
44. **Cyllid Ewropeaidd** – Yng ngoleuni'r argyfwng economaidd presennol, ac yn arbennig graddfa'r toriadau y mae Cymru'n eu hwynebu mewn gwariant cyfalaf, dylai'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith cyfalaf fod yn uchel iawn ar restr blaenoriaethau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer Cymru. Bydd angen i ni fod yn llawer mwy creadigol ac arloesol yn y ffordd yr ydym yn defnyddio Cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol fel catalydd ar gyfer buddsoddiad pellach o'r sector preifat ac yn fwy clyfar am y ffordd o gyflawni buddsoddiadau mwy cynaliadwy.
45. Bydd graddfa'r toriadau ar draws y sector cyhoeddus yn ei wneud yn fwy o her dod o hyd i arian cyfatebol yn y rhaglenni newydd. O ganlyniad, bydd angen archwilio pob cyfle i gynorthwyo hyn. Bydd cronfa benodol ar gyfer arian cyfatebol yn hanfodol ar gyfer y cyfnod rhaglennu nesaf ond mae'n rhaid i hyn gyd-fynd â phrosesau'r Gronfa Strwythurol a bod yn llawer mwy hyblyg ac agored na'r Gronfa



Arian Cyfatebol wedi ei Dargedu presennol. Yn ogystal, bydd eglurder ynghylch ffynonellau arian cyfatebol posibl eraill o adrannau Llywodraeth Cymru yn hanfodol yn gynnar yn y cyfnod rhaglennu newydd.

46. Yn y dyfodol, bydd angen i raglenni gydweithio er mwyn ysgogi uchafswm y gwerth o becynnau ariannol sy'n defnyddio cyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru fel y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog, cyllid ar gyfer Ardaloedd Adfywio, y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd, addysg a sgiliau, a chyllidebau sefydliadau eraill fel y Gronfa Loteri Fawr a'r Ganolfan Byd Gwaith ac ati, i ychwanegu gwerth i'r Cyllid Ewropeaidd. Mae angen i hyn gynnwys sut i wneud mwy o ddefnydd o gyllid cyfatebol ar gyfer Cronfeydd Ewropeaidd yn y ffynhonnell er mwyn ei gwneud yn haws i fusnesau a chymunedau gael mynediad i'r cyllid hwn, sydd ei angen yn fawr, yn y dyfodol.
47. Bydd angen i hyn hefyd gynnwys meddwl yn fwy creadigol am y ffordd yr ydym yn ariannu prosiectau seilwaith cyfalaf yn y dyfodol, yn cynnwys cael mynediad i gyllid o ffynonellau eraill yn yr UE fel Cyfleuster Cysylltu Ewrop ar gyfer buddsoddiadau Seilwaith a chynyddu potensial benthyca llywodraeth leol, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer mwy o fuddsoddiadau o'r sector preifat.
48. **Cymorth Ewropeaidd ar y Cyd ar gyfer Buddsoddiad Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig (JESSICA)** - Dull partneriaeth ydyw yn ei hanfod o fuddsoddi mewn ardaloedd trefol. Mae'n galluogi awdurdodau i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn dod o hyd i atebion ariannu arloesol ar gyfer ariannu prosiectau wrth ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Yng Nghymru, mae Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) yn gyfrwng a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
49. **Cyfrwng a Gefnogir gan Asedau Lleol** – maent yn galluogi awdurdodau i ddefnyddio eu hasedau, yn hytrach nag arian parod, i ymgysylltu partneriaid mewn cyfryngau buddsoddi. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n helaeth yn Lloegr gyda Croydon yn brif gynigiwr ar gyfer y model.
50. **Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat (PPP)** – i lawer yng Nghymru, mae'r drafodaeth yn ymwneud â PPPs wedi mynd yn ddadl ddeuol yn canolbwyntio naill ai ar brofiadau cadarnhaol neu negyddol o fentrau cyllid preifat. Mae CLILC wedi gweithio gyda phartneriaid fel CBI Cymru er mwyn deall y potensial ar gyfer mwy o ymgysylltu â'r sector preifat gan gydnabod y bu cyfyngiadau gwleidyddol ar ei ddefnydd mewn rhannau eraill o wasanaeth cyhoeddus Cymru.

51. **Diogeliad** – gwaredu refeniw'r dyfodol. Er enghraifft, gallai rhywun sy'n derbyn rhent o eiddo drosglwyddo'r hawl trwy ei gyfnewid am gyfandaliad uniongyrchol. O safbwynt technegol cyfrifyddu, ymddengys mai gwerthu ased yw ystyr diogeliad (y ffrwd refeniw yn y dyfodol) a'r cyfandaliad a dderbynnir yw elw'r gwerthiant, nid arian wedi ei fenthycu. Ond yr un canlyniad sydd i'r strategaeth â benthycu a gellid ystyried y gellid ei ddefnyddio fel dewis amgen iddo. Mae hwn yn fodel ariannu newydd iawn y mae rhai Bwrdeistrefi yn Llundain yn ei ystyried.

**A oes gennych unrhyw farn am y goblygiadau posibl ar awdurdodau lleol yn ymwneud â bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu pŵer benthycu awdurdodau lleol i hybu'r cyfalaf sydd ar gael ar gyfer seilwaith?**

52. Mae CLILC ers amser wedi eirioli rôl bosibl llywodraeth leol yn cefnogi'r angen am fuddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru er mwyn annog mewnfuddsoddi, galluogi busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithiol ac ysgogi'r economi. Rydym wedi ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y bydd Menter Benthycu Llywodraeth Leol yn llwyddiant.

53. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ar gyllid cyfalaf a refeniw, mae gan CLILC a SWT bryderon y bydd unrhyw gam sylweddol tuag at fwy o ddefnydd o gyllid refeniw i gefnogi gwariant cyfalaf yn lleihau hyblygrwydd cyllidebol yn y dyfodol ac yn rhwystro dewisiadau. Mae'r bwlch ariannu sy'n gysylltiedig â chynlluniau fel Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a chynlluniau seilwaith trafndiaeth mawr (ee ffyrdd lliniaru'r M4 a thrydaneiddio llinellau rheilffordd) yn sylweddol a byddai canlyniad refeniw benthycu i 'lenwi'r' bylchau hynny yn sylweddol.

**Sut y gallai benthycu gan awdurdod lleol gael ei ddefnyddio i hybu'r lefelau cyfalaf sydd ar gael ar gyfer seilwaith Cymru?**

54. Mae Menter beilot Benthycu Llywodraeth Leol wedi dangos model ar gyfer hybu mwy o fuddsoddiad yn seilwaith priffyrdd Cymru trwy ddull cydweithredol. Fodd bynnag, nid yw cwmpas y dull hwn yn ddiddiwedd o ystyried y pwysau y mae cyllidebau refeniw yn eu hwynebu ar draws Cymru. Yn y cynllun peilot hwn, cafwyd cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ymwneud â'r maes gwariant ond ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd dewis lleol a gwneud penderfyniadau democrataidd o ran y dewisiadau buddsoddi.

**Pa ddulliau amgen o ysgogi cyllid cyfalaf sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi ar gyfer eu Cynllun Seilwaith, yn cynnwys y posibilrwydd o hybu benthycu gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill?**

55. Cred CLILC y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau benthyca gyda neu heb ddatganoli treth. Fodd bynnag, rydym yn cytuno gyda Chomisiwn Holtham bod yr achos dros ganiatáu Llywodraeth Cymru i fenthyca yn mynd yn gryfach fyth wrth ei alinio â datganoli pwerau treth am y byddai ganddi fwy o reolaeth dros ei refeniw ei hun. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol ar gynnal peilot o'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol sydd i fod dechrau yn 2012-13, gyda Llywodraeth Cymru'n darparu adnoddau ychwanegol i gynghorau i greu uchdwr yn eu cyllidebau refeniw i'w galluogi i fenthyca yn ddarbodus ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn y seilwaith priffyrdd.

**Wrth archwilio modelau cyfalaf arloesol sy'n cael eu cynnig mewn mannau eraill yn y DU, sut y mae'r rhain wedi cael eu datblygu, eu defnyddio a, lle y bo'n bosibl, sut y maent wedi perfformio.**

56. Mae CLILC a SWT wedi ymgymryd â sawl darn o waith i sefydlu hyfywedd y dulliau gwahanol o fodolau ariannu cyfalaf. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi cael ei wneud o dan nawdd y Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddiad (CFIG) rhan allweddol o seilwaith y Cyngor Partneriaeth a'r Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid.

57. Mae'r gwaith parhaus yn yr Alban yn ymwneud â TIF a gwaith presennol y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr, sy'n ystyried cael llywodraeth leol i greu ei gyfrwng cyhoeddi bondiau ei hun, yn enghreifftiau diweddar. Treuliodd gweithgor ar y cyd CLILC / CBI sawl mis yn deall manteision posibl y sector cyhoeddus yn gweithio ar y cyd â'r sector preifat yn rheoli a chyflenwi buddsoddiad cyfalaf.

58. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i ddefnyddio unrhyw un o'r modelau mwy 'arloesol' a amlinellir ym mharagraffau 43 – 52 yn ei hanfod yn ddewis lleol. Mae'r amgylchedd ariannol heriol iawn y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gweithio ynddo yn golygu chwilio am werth am arian ac mae hyblygrwydd parhaus er mwyn ymateb i heriau cyllidebau yn bryder mawr i'r awdurdodau. Mae defnyddio benthyca heb gymorth sydd wedi ei reoli'n effeithiol yn fewnol yn dileu'r angen am bartner i gael enillion masnachol ar unrhyw fuddsoddiadau. Mae hyn yn golygu, er bod cyfraddau llog yn parhau ar lefelau hanesyddol o isel, atebion o dan arweiniad awdurdodau yw'r mwyaf poblogaidd. Ceir eithriadau i hyn, er enghraifft, y cynnig TIF presennol yng Nghaerdydd.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:**

Will McLean, Arweinydd Rhaglen, Tîm Adnoddau

[will.mclean@wlga.gov.uk](mailto:will.mclean@wlga.gov.uk)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol

Rhodfa Drake

Caerdydd

CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

**Benthycia heb Gymorth Newydd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

	2004-05 £ 000's	2005-06 £ 000's	2006-07 £ 000's	2007-08 £ 000's	2008-09 £ 000's	2009-10 £ 000's	2010-11 £ 000's
Ynys Môn				888	534	4,109	1,389
Gwynedd	2,418		923	1,707	798	2,309	1,225
Conwy	172	2,278	2,740	3,455	2,913	3,543	1,244
Sir Ddinbych	1,314	5,821	8,767	13,795	9,500	7,784	11,349
Sir y Fflint	571	786	1,238	162	311	409	757
Wrecsam	3,340	255	1,491	13	196	2,387	3,014
Powys	921	2,505	1,471			0	0
Ceredigion	1,222	1,630	2,104	661	15,191	31	40
Sir Benfro						806	778
Sir Gaerfyrddin	7,057	4,317	9,912	16,712	24,033	21,466	28,399
Abertawe		428	22,591	35,330	6,743	3,166	0
Castell-nedd	559	3,053	15,886	11,104	6,971	6,425	4,517
Port Talbot							
Pen-y-bont ar	1,172	453	93	184	1,432	1,139	4,543
Ogwr							
Bro Morgannwg	178					0	0
Rhondda Cynon	64	13,267	4,858	8,740	8,656	2,874	7,738
Taf							
Merthyr Tudful	1,917	1,600	780	4,676		0	0
Caerffili		5,000	3,956	8,656	1,680	514	0
Blaenau Gwent	420	975	1,427	3,016	1,660	2,949	1,373
Torfaen			5,921			143	2,631
Sir Fynwy		525	1,632	98	1,397	4,672	7,719
Casnewydd	1,161	3,319	4,582	16,877	4,348	8,978	22,380
Caerdydd	3,506	9,310	611	31,112	10,920	23,174	30,080
CYFANSWM CYMRU	25,992	55,522	90,983	157,185	97,283	96,879	129,176

Heddlu Dyfed	.	.	-	-	-	-	-
Powys							
Heddlu Gwent	.	.	-	-	-	-	-
Heddlu Gogledd Cymru	1,733	5,117	3,222	3,459	2,472	1,576	206
Heddlu De Cymru	283	202	-	-	7,000	-	482
Tân Gorllewin a Chanolbarth Cymru	.	703	1,462	965	1,078	2,505	2,174
Tân Gogledd Cymru	2,457	271	729	1,934	4,678	1,636	6,032
Tân De Cymru	.	694	786	199	12,535	3,541	6,378
Bannau Brycheiniog	.	.	-	-	-	-	-
Arfordir Penfro	.	.	-	-	-	-	-
APC Eryri	.	.	-	-	-	-	-

<b>Cyfanswm Cymru</b>	<b>30,465</b>	<b>62,509</b>	<b>97,182</b>	<b>163,742</b>	<b>125,046</b>	<b>106,137</b>	<b>144,448</b>
---------------------------	---------------	---------------	---------------	----------------	----------------	----------------	----------------

RESTRICTED



HM Treasury, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ

Ms Jocelyn Davies  
Chair of National Assembly for Wales' Finance Committee  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

10 May 2012

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ben Dodds'.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES'S FINANCE COMMITTEE AND DEVOLVED FUNDING**

Thank you for your letter dated 27 March and subsequent email from the Clerk to the Finance Committee and my officials on the 26 April.

2. With thanks for your understanding on the time it has taken for me to come back to you, please see below for further detail in response to each of the queries you raised.
3. A comparison of the existing borrowing powers of the three devolved administrations under the existing Statement of Funding Policy  
Currently, local authorities in Wales and Scotland have borrowing powers under the Local Government Act 2003. The Northern Ireland Executive has borrowing powers under the Northern Ireland Loans Act 1975 and the Northern Ireland Miscellaneous Provisions Act 2006 in lieu of its local authorities. This is limited at £200m p.a. which can be used to fund capital expenditure and is agreed with the Treasury at every Spending Review.



RESTRICTED



All three of the Devolution Acts – Scotland Act 1998, Northern Ireland Act 1998 and Government of Wales Act 2006 make provisions to enable the Devolved governments to borrow to manage short term cash flow. They also all benefit from UK Government borrowing that is undertaken to fund capital investment throughout the UK.

The current situation in respect of borrowing powers is therefore one of parity across the devolved administrations.

The Scotland Act 2012 introduces a new borrowing regime for Scottish Ministers from April 2015. It breaks the status quo described above on the basis that:

- Scottish Ministers will be responsible for raising around £6bn of devolved taxes from April 2015 onwards. This provides an independent source of revenue which Scottish Ministers can adjust as necessary to support Scottish borrowing;
- Volatility associated with tax raising powers which were previously managed at a UK level will, over time, be transferred to the Scottish Parliament in order to increase the accountability of the Parliament. Borrowing powers form part of the suite of tools available to Scottish Ministers to manage any errors in forecasting devolved Scottish taxes.

4. The extent to which the Welsh Government could be granted borrowing powers, taking account of any lessons learnt from the experience of local authority current borrowing powers

RESTRICTED

Tudalen 38



RESTRICTED



Future borrowing powers for the Welsh Government are being considered by the Silk Commission alongside tax raising powers. As part of this process I expect the extent to which the Welsh Government could be granted additional borrowing powers to be considered.

5. The borrowing powers proposed to be devolved to the Scottish Government in the Scotland Bill and any controls or limits over how they should be exercised

Holding levels of taxation and spending constant, Scottish borrowing will increase UK borrowing. The Scotland Act and its non-legislative framework therefore places controls and limits on Scottish borrowing to ensure it is affordable for the UK. The Command Paper published alongside the Scotland Bill available at:

[www.scotlandoffice.gov.uk/scotlandoffice/.../Scotland\\_Bill\\_Command\\_Paper.pdf](http://www.scotlandoffice.gov.uk/scotlandoffice/.../Scotland_Bill_Command_Paper.pdf) sets out the controls on p.38 and p.39.

6. Any protocol which exists between the Treasury, the relevant devolved administrations and local authorities regarding arrangements for limits to be applied to local authority borrowing

There is no formal protocol governing prudential borrowing regimes for local authorities in England, Scotland and Wales, though paragraph 7.4 of the Statement of Funding Policy sets out the arrangements. This can be found at:

[http://www.hm-treasury.gov.uk/spend\\_sr2010\\_fundingpolicy.htm](http://www.hm-treasury.gov.uk/spend_sr2010_fundingpolicy.htm)

RESTRICTED



7. Any innovative funding mechanisms for capital infrastructure being explored by the UK Government

The Budget announced a number of innovative funding mechanisms that the Government is considering or facilitating.

The Government will carry out a feasibility study into opportunities to increase the role of private investment in the strategic road network, with a progress update by Autumn Statement. The Budget announced a short list of options to improve capacity on the A14 which could be part-funded through tolling.

In addition, the Government has supported the establishment of a new Pension Infrastructure Platform, including up to a dozen of the UK's largest public and private sector pension schemes, which will make the first wave of its initial £2 billion of investment in UK infrastructure by early 2013.

References to the Budget are 1.219 (p39) for roads points and 1.225 (p42) for pension funds. The document can be found at:

<http://www.hm-treasury.gov.uk/budget2012.htm>

8. If the Welsh Government were given power to issue a bond, what control mechanisms would the Treasury wish to see put in place?

The case for a devolved administration borrowing from the bond market is not clear cut, and has potential implications that extend further than for other sources of borrowing. The Scotland Bill does not provide the power for the Scottish Government to borrow by way of bonds, but allows for Treasury ministers to grant this power in the future where this does not undermine the overall UK fiscal position or have a negative impact on total

RESTRICTED



UK borrowing. The Government has committed to issue a consultation to explore the issues around Scottish bond issuance shortly.

9. The Scotland Bill consultation has focused considerably on the volume of permissible debt. The borrowing will be undertaken through the purchase of specific debt products. What products of debt are being considered as part of the consideration of giving borrowing powers to the Scottish Government as a result of the Scotland Bill, and will consideration be given to restricting the bodies from which the Scottish Government will be able to borrow?

The Scotland Act 2012 enables Scottish Ministers to borrow from the National Loan Fund and for capital purposes, commercial banks in addition to the National Loan Fund. The question of access to the bond market will be subject to a forthcoming consultation.

10. As you will know, a protocol exists between the Welsh Government and Welsh local government in terms of the procedures to be following if a national limit on local authority borrowing is required. If the Welsh Government were granted borrowing powers, would you envisage a similar protocol being introduced between the Treasury and the Welsh Government?

Future borrowing powers for the Welsh Government are being considered by the Silk Commission alongside tax raising powers. As part of that process I expect borrowing limits and controls including any protocols to be considered.



RESTRICTED



11. If the Welsh Government were granted borrowing powers, and a national borrowing limit was set, how would you envisage that borrowing limit being shared between local and central government?

Future borrowing powers for the Welsh Government are being considered by the Silk Commission alongside tax raising powers. As part of that process I expect borrowing limits and controls to be considered.

12. Local government in Northern Ireland has recently been granted powers to undertake prudential borrowing. How is local government borrowing going to be taken account of within the limit for Northern Ireland Executive borrowing?

The new local government borrowing is in addition to the £200m limit placed on borrowing by the Northern Ireland Executive.

13. Securitisation has been used by at least two Scottish local authorities as a means of raising money based on the security of assets. Have you given any consideration to the use of securitisation as a method of raising finance in Wales?

No consideration has been given to the use of securitisation as a method of raising finance in Wales.

14. I hope this aids your inquiry and let me know if I can be of further assistance

*But where*

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Danny Alexander'.

DANNY ALEXANDER

RESTRICTED

# Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 4 - Ty Hywel**

---

Dyddiad: **Dydd Mercher, 16 Mai 2012**

---

Amser: **09:15 - 12:25**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_500000\\_16\\_05\\_2012&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500000_16_05_2012&t=0&l=cy)

---

## Cofnodion Cryno:

---

### Aelodau'r Cynulliad:

**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**  
**Peter Black**  
**Christine Chapman**  
**Paul Davies**  
**Mike Hedges**  
**Ann Jones**  
**Julie Morgan**  
**Ieuan Wyn Jones**

---

### Tystion:

**Gerry Holtham, Cynghorydd ar Fuddsoddi mewn Seilwaith**  
**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**  
**Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru**  
**Stephen Jones, Cymdeithas Llywodraeth Leol**  
**Chris Williams, Cyfarwyddwr Datblygu, Tidal Energy Cyf**  
**Katherine Himsworth, Furnace Farm Cyf**

---

### Staff y Pwyllgor:

**Helen Finlayson (Clerc)**  
**Daniel Collier (Dirprwy Clerc)**  
**Martin Jennings (Ymchwilydd)**  
**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**  
**Tom Jackson (Clerc)**  
**Ben Stokes (Ymchwilydd)**  
**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**

---

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## **2. Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Gerry Holtham, Cynghorydd ar Fuddsoddi mewn Seilwaith; Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am y cwestiynau nas cyrhaeddwyd.

## **3. Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

3.2 Holodd y Pwyllgor y tyst.

## **4. Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Chris Williams, Cyfarwyddwr Datblygu, Tidal Energy Cyf. a Katherine Himsforth, Cyfarwyddwr Furnace Farm drwy gyfrwng fideo gynhadledd.

4.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

## **5. Papurau i'w nodi**

5.1 Nododd y Pwyllgor ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ynghylch JESSICA.

5.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## **6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**

Eitemau 7 ac 8.

## **7. Trafod y dystiolaeth – Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf**

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth i'w ymchwiliad i Gyllid Datganoledig: Pwerau Benthg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf.

## **8. Trafod y dystiolaeth – Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru**

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth i'w ymchwiliad i Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol yng Nghymru.